

**CABINET
COFNOD PENDERFYNIADAU****DYDDIAD GWNEUD PENDERFYNIAD: Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2024****DAW'R PENDERFYNIAD I RYM AR: Manually Type Call in Date**

Gall penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet gael eu "Galw Mewn" gan y Pwyllgor Dethol perthnasol. Os caiff penderfyniad ei alw mewn, ni fydd yn dod i rym fel y nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.

AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL:

Cynghorwyr Sir Mary Ann Brocklesby, Paul Griffiths, Martyn Groucutt, Catrin Maby, Angela Sandles, Ian Chandler, Ben Callard, Sara Burch and John Crook

AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:

Cynghorwyr Sir

SWYDDOGION YN BRESENNOL

Jonathan Davies, Peter Davies, Will Mclean, Wendy Barnard, Matthew Gatehouse, James Williams, Annette Evans, Richard Jones, Deb Hill-Howells and Louise Wilce

Eitem Rhif	Title	Diben, Ymgynghoriad ac Awdur	Datganiad Diddordeb	Decision
3	Adborth gan y Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn nodi Adborth gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg. Diolchwyd i'r Cadeirydd a'r Pwyllgor am ddarparu'r adborth
Gwybodaeth ychwanegol:				
4	2024/25 CYLLIDEB REFENIW - Y SEFYLLFA ARIANNOL DDIWEDDARAF	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: <ol style="list-style-type: none">Bod y Cabinet yn nodi'r diffyg a ragwelir yn y gyllideb refeniw o £4,353,000 sy'n ddirywiad o £964,000 ers y diweddariad blaenorol.Bod y Cabinet yn nodi rhagolwg o 80.1% o gyflawni'r £10,940,000 o arbedion gwasanaeth a gyllidebwyd sydd eu hangen ar gyfer y flwyddyn. Mae hyn yn arwain at ddiffyg arbedion o £2,176,000 sy'n gynwysedig yn y diffyg uchod.Bod y Cabinet yn nodi'r cam gweithredu i adennill y gyllideb o £1,019,000 a luniwyd gan wasanaethau a fydd, o'u cyflawni, yn lleihau'r diffyg a ragwelwyd i £3,334,000.Bod y Cabinet yn nodi bod y negodi ar gytundebau cyflog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr Llywodraeth Leol wedi dod i ben, a bod disgwyl i'r canlyniad fod o fewn y dyraniadau yn y gyllideb.Bod y Cabinet yn nodi'r risgiau cyllidebol sydd wedi'u hymgorffori yn y rhagolwg, sef;<ul style="list-style-type: none">Anwadalrwydd y galw am wasanaethau cost uchel, yn

				<p>enwedig ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phlant ac ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Y risg na fydd y cynnydd yng nghyfradd cyfraniad y cyflogwr i gynllun pensiwn athrawon yn cael ei ariannu'n llawn; ➤ Effaith posib ar wytnwch ariannol y Cyngor o'r cynnydd a ragwelir yn y diffyg cronol o gronfeydd wrth gefn ysgolion sy'n cael ei gario ar fantolen y Cyngor. ➤ Y risg o beidio â chyflawni'r targedau arbedion o£10,940,000 a gyllidebwyd ymhellach; ➤ Y duedd o leihau adennill dyledion, yn enwedig o fewn y Dreth Gyngor lle mae cynnydd sylweddol yn nifer y gostyngiadau ac eithriadau a ddyfarnwyd, ac arafu yn y cyfraddau casglu; ➤ Y warchodaeth wrth gefn hynod gyfyngedig sydd ar gael i'r Cyngor <p>6. Bod y Cabinet yn nodi'r cynnydd a ragwelir yn y diffyg yng nghronfeydd wrth gefn ysgolion cronus fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yr adroddiad hwn o £4,887,000. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg o £5,791,000 ym malans ysgolion ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, gyda 20 (59%) o dri deg pedwar o ysgolion yn cael eu rhagweld mewn diffyg.</p> <p>7. Bod y Cabinet yn nodi bod ysgolion sy'n rhagweld diwedd blwyddyn ariannol 2024/25 mewn balans diffygiol wedi dod â chynlluniau adfer ymlaen yn amlinellu'r camau gweithredu arfaethedig i fynd i'r afael â'r diffygion yn y gyllideb.</p> <p>8. Bod y Cabinet yn nodi rhagolwg o danwariant yn y gyllideb Gyfalaf o £93,000, ynghyd ag arwydd o lithriad mewn cynlluniau cyfalaf o £9,298,000. Mae'r mân danwariant yn ymwneud â chynllun cartref gofal Heol Crug ac oherwydd ei fod wedi'i ariannu gan fenthyciadau penodol ac nid yw'n cynrychioli cyllideb dros ben y gellir ei defnyddio wedyn.</p>
--	--	--	--	---

Gwybodaeth ychwanegol:

5	LLYTHYR BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2023/24	Fel y nodir yn yr adroddiad		<p>PENDERFYNWYD:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Bod y Cabinet yn nodi cynnwys llythyr blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru (Atodiad 1) ac yn hysbysu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru o'u hystyriaethau ac unrhyw gamau gweithredu arfaethedig. Mae OGCC yn ymwybodol y
---	---	-----------------------------	--	--

				<p>byddai oedi cyn ymateb iddynt oherwydd amserlennu cyfarfodydd.</p> <p>2. Bod yr awdurdod yn parhau i ymgysylltu â gwaith safonau cwynion OGCC, cael mynediad at hyfforddiant i staff a darparu data cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Rydym hefyd wedi gweithredu polisi cwynion enghreifftiol yr Ombwdsmon yn llawn.</p>
Gwybodaeth ychwanegol:				
6	Cymeradwyo'r Strategaeth Atal NEET	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo drafft terfynol Strategaeth Atal NEET ddiwygiedig Sir Fynwy.
Gwybodaeth ychwanegol:				
7	Hen Ysgol Mounton House, Cas-gwent	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cytuno y dylid rhyddhau hen Ysgol Mounton House, heb gynnwys tir a gedwir, o'r Gyfarwyddiaeth Dysgu, Sgiliau a'r Economi i'r Gwasanaethau Landlordiaid i'w waredu.
Gwybodaeth ychwanegol:				
8	Asesiad Risg Strategol	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod Aelodau'r Cabinet yn adolygu'r asesiad risg strategol ac yn asesu a yw'n darparu gwerthusiad realistig gyda thystiolaeth o'r risgiau strategol sy'n wynebu'r awdurdod dros y tair blynedd nesaf.
Gwybodaeth ychwanegol:				
9	Diweddariad ar Berfformiad y Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol	Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn defnyddio'r adroddiad hwn fel rhan o'u gwaith monitro parhaus o ba mor effeithiol y mae'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion i nodi lle nad yw adrannau ar y trywydd iawn i gyrraedd y targedau a nodi unrhyw gamau adferol y gallai fod eu hangen.
Gwybodaeth ychwanegol:				
		Fel y nodir yn yr adroddiad		PENDERFYNWYD:
Gwybodaeth ychwanegol:				